

DIWRNOD BLAS AR FYNYDDA

Sadwrn Hydref 10fed 2009



**Cyfle i roi cynnig ar
gerdded, sgramblo,
dringo neu fowldro ym mhob rhan
o Gymru yn rhad ac am ddim!**

**Dan arweiniad profiadol rhai
o aelodau'r Clwb.**

**Croeso i bawb ... does dim angen
profiad a does dim angen bod
yn aelod o'r Clwb.**

www.clwbmynyddacymru.com

Gweithgareddau Diwrnod Blas ar Fynydda • Sadwrn, Hydref 10fed, 2009

Bydd angen cysylltu â'r arweinydd/ion ymlaen llaw. Cofiwch ddod a bwyd a diod a gwisgo dillad ac esgidiau addas. Darperir offer ar gyfer sgramblo, dringo a'r bowldro.

De-orllewin Cymru: Bannau Sir Gâr – Pedol Waun Lefrith, Picws Du, Fan Sir Gâr. 7 milltir. Cwrdd am 9.45 ar gyfer 10.00. Parcio tua milltir i'r dwyrain o Landdeusant ar ben y ffordd sy'n arwain am Lyn y Fan Fach (Cyf grid SN 799 239). Enwau i un o'r arweinyddion erbyn nos Wener, 9 Hydref – Dai Thomas, 01269 842151, dafyddtomos@btinternet.com neu Guto Evans, 07824 617131, guto.evans@btinternet.com

De-ddwyrain Cymru: Pen y Fan a Chribyn – Pedol Blaen Taf Fechan. 7 milltir. Cwrdd am 9.45 ar gyfer 10.00. Parcio wrth argae Neuadd Isaf (Cyf grid SO 032 179). Enwau i un o'r arweinyddion erbyn nos Wener, 9 Hydref – Rhys Dafis, 07946 299940, rhysdafis@aim.com neu Peredur Evans, 07890 684180, evanshp@caerdydd.ac.uk ... efallai y bydd cyfle i ddringo hefyd ... manylion ar y wefan.

Gogledd-orllewin Cymru: Yr Wyddfa a'i chriw. Cwrdd am 9.15 ar gyfer 9.30. Maes parcio Pen y Pass (Cyf grid SH 647 557) Tâl parcio. Enwau i un o'r arweinyddion erbyn nos Wener, 9 Hydref – George Jones, 01286 672376, jones@penygarth.freesevice.co.uk neu Maldwyn Roberts, 01286 880997, maldwynperis@tiscali.co.uk

Gogledd-ddwyrain Cymru: Y Berwyn – Cadair Berwyn a Chadair Bronwen. Tua 12 milltir. Cwrdd am 9.15 ar gyfer 9.30. Parcio wrth y bont y mhentref Llandrillo (Cyf grid SJ 035 372). Enwau erbyn nos Wener, 9 Hydref – Gareth Roberts, 01691 718718, cefncoed@btconnect.com

Canolbarth Cymru: Llanrhystyd i Aberystwyth – rhan o Lwybr Arfordir Ceredigion. Tua 5 awr o gerdded. Cyfarfod i ddal bws X40, am Llanrhystyd, am 9.10 tu allan i'r hen Ysgol Gymraeg, Ffordd Alexandra, Aberystwyth. Gall rhai o'r gogledd ddod ar yr X32 sy'n cyfarfod yr X40. Enwau erbyn nos Wener, 9 Hydref – Iolo ap Gwynn, 01970 832551, 07870 162663, iolo.apgwynn@tiscali.co.uk

Gogledd-orllewin Cymru: Dringo / Sgramblo / Bowldro. Cwrdd am 9.15 ar gyfer 9.30. Maes parcio ger Caffi Ogwen (Cyf grid SH 649 604) Tâl parcio. Enwau erbyn nos Wener, 9 Hydref – Arwel Roberts, 01492 514424, Arwelgwydyr@aol.com